OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 622

# Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015

## RHAN 2

## Llywodraethu

**Rheolwr cynllun**

**4.**—(1) Mae awdurdod yn gyfrifol am reoli a gweinyddu'r cynllun hwn, ac unrhyw gynllun statudol sy'n gysylltiedig â'r cynllun hwn(**1**), mewn perthynas ag unrhyw berson y mae'n awdurdod priodol ar ei gyfer o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Yr awdurdod priodol mewn perthynas â pherson—

(a) sydd neu a fu yn aelod o'r cynllun hwn; neu

(b) sydd â hawl i gael unrhyw fudd mewn cysylltiad â pherson sydd neu a fu yn aelod o'r cynllun hwn,

yw'r awdurdod a oedd yn cyflogi'r aelod hwnnw ddiwethaf, tra oedd yn aelod actif o'r cynllun hwn.

(3) Yr awdurdod priodol mewn perthynas ag aelod â chredyd pensiwn yw'r awdurdod a oedd yn gyfrifol am gyfrif pensiwn yr aelod â debyd pensiwn ar ddyddiad effeithiol y gorchymyn rhannu pensiwn.

(4) Yn y cynllun hwn, cyfeirir at yr awdurdod priodol fel y rheolwr cynllun.

(**1**) Gweler adran 4(6) o Ddeddf 2013 sy'n nodi o dan ba amgylchiadau yr ystyrir bod cynlluniau pensiwn statudol yn "connected".